

## **TRAWSFYNYDD DECOMMISSIONING SITE, GWYNEDD, WALES (MAGNOX LIMITED)**

### **GRŴP RHANDDEILIAD SAFLE TRAWSFYNYDD**


### **REPORT TO THE SITE STAKEHOLDER GROUP 6<sup>TH</sup> JUNE 2016**

#### **FOREWORD**

This report is issued to the Site Stakeholder Group (SSG) to provide a brief summary of the regulatory activities of Natural Resources Wales (NRW) at the Trawsfynydd Decommissioning nuclear site. Accountability for the regulation of nuclear sites in Wales is held by “Natural Resources Wales” on behalf of the Welsh Government.

NRW and the Environment Agency (EA) have in place a contractual arrangement which enables NRW to draw upon the resources of the specialist EA Nuclear Regulation Group, to assist in the delivery of on-site inspection work and associated assessments under the Environmental Permitting Regulations 2010 (EPR 2010).

In terms of radioactive substances regulation, our primary role centres on the generation and disposal of radioactive waste. The environmental permit stipulates a number of conditions and limits within which the site must operate. Please see Annex 1 for further information on our role.



## Introduction

This report covers the period since the last Site Stakeholder Group (SSG) meeting in December 2015, highlighting key activities and areas of interest.

## Radioactive substances regulation

We regulate radioactive waste disposals through environmental permits that contain limits and conditions aimed at minimising the volume of wastes produced and protecting the environment.

We check compliance with the permits by making regular inspections. These are recorded on Radioactive Substances Compliance Assessment Reports (RASCAR) which detail our findings and any non-compliances; they are placed on the Public Register.

We also maintain regular contact with the operator, at meetings, by telephone or email, in addition to formal correspondence.

## Radioactive discharges

We receive quarterly reports from Trawsfynydd site on their monthly radioactive discharges. These are also placed on the Public Register.

All radioactive discharges from Trawsfynydd remain within the limits set in our radioactive substances environmental permit.

## Environmental monitoring

Magnox Ltd is required to carry out routine environmental monitoring under their radioactive substances permit. This involves taking a wide range of environmental samples from locations in the vicinity of the site and analysing them for radioactivity content.

The Environment Agency (on behalf of NRW) also undertakes an independent programme of environmental monitoring. The results are widely reported, along with results from monitoring programmes around other UK nuclear sites, in the Radioactivity in Food and the Environment (RIFE) report. The RIFE reports can be found at: <http://www.food.gov.uk/science/surveillance/radiosurv/rife/>.

Recent results from both programmes are generally in line with previous periods and show no cause for concern.

## Recent (Nuclear) Regulatory Visits / Meetings & Look ahead

Date	Purpose
25-26 Jan	• Routine Site Inspection
24 Feb	• NDA Workshop on "End States", Manchester
8-9 Mar	• Routine Site Inspection
18-19 Apr	• Routine Site Inspection
4 May	• Joint Inspection of MoC 6-8 implementation by NRW / ONR/ EA
17 May	• NDA & DECC "Proportionate Regulatory Controls" work: launch of NDA communications plan to engage stakeholders in the work they are doing to support the optimisation of site end states and associated waste management
27 May	• Proposed Site End State Tactical Meeting with Trawsfynydd & Magnox staff, NRW & ONR, Bootle
6-7 June	• Attend SSG & Routine Site Inspection
22-23 June	• Scheduled First Joint ARoSE of Trawsfynydd & Wylfa, to be held at Wylfa
5-6 July	• Scheduled routine Site Inspection
12 July	• Scheduled NRW & EA Meeting re: Trawsfynydd & Wylfa (NRW, Buckley)

## Current regulatory issues & good practice

- The site continues to make good progress in disposing, in accordance with the waste hierarchy, of radioactive waste.
- During 2015 we identified an issue regarding the lack of off-site dispatch of certain (less routine) radioactive wastes and requested the operator confirm the extent of these and develop a programme of work to resolve. Progress has been made on this and we will continue to monitor the response.
- During 2015 we had discussions with the operator regarding proposed adjustments to the staff structures/staff levels within the whole Magnox fleet. We closely monitored the application of this at Trawsfynydd (we had called a meeting with the Station Director and Magnox corporate staff in August 2015). Since

then the situation has moved on and we are content with the proposals for Trawsfynydd. We will continue to keep under review implementation of revised site staffing baselines (for permit compliance).

- Trawsfynydd is a “trial” site (along with Winfrith & Dounreay) for the application of the environment agencies “Guideline Requirements for the Revocation of Permits” (“GRR”). The DECC / NDA led work developing “proportionate regulatory controls” is also linked to this. The trial should see the development of an optimised end state, away from the current ONR “no danger” requirements i.e. the adoption of the GRR approach. This is likely to require changes to legislation and will take several years, assuming ministerial agreement and then parliamentary approval. Consequently, the trial work at the 3 sites is being undertaken at NDAs risk (there is no certainty that this work will lead to changes to the primary legislation [NIA65] and if it does proceed, it will take several years). Nevertheless, all of the regulators (EA, NRW, SEPA & ONR) have committed to work together with Magnox to support the trials.
- As a result of the above we continue to pay close attention to the assessments being developed at Trawsfynydd to develop a “Waste Management Plan” and supporting “Site Wide Environmental Safety Case”, to be submitted to us prior to C&M entry.
- In Dec 15 we noted uncertainty regarding the implications for the site as a result of the potential reductions in NDA funding following the Govt. Spending Review. The review did not result in severe cuts to resourcing, nevertheless we will continue to engage NDA on funding plans to seek to ensure they do not detrimentally impact on permit compliance activities at the sites.
- We will continue to monitor progress in the efforts to accelerate FED retrievals, commissioning of associated retrieval/encapsulation plant, as well as progress dealing with higher activity waste streams & records.

## **Non-Radioactive Substances Regulation (NRW)**

- Nothing to report.

### **EPR-RSR Permit Update**

In Dec 2015 we noted our intention to update the radioactive substances regulation permit. We hope to complete this shortly. In summary, permit amendments will include:

- Environmental monitoring; currently we specify a programme for the operator to undertake. Under EPR 2010 the operator will define the programme, submitted to ourselves for approval
- Radioactive waste discharge returns; these are currently formally submitted to us on a monthly basis. We will require quarterly submissions. Formally agreed with the site, from 1 Oct 15 (Note: the operator will continue to record all discharge data and have this available for our inspection at any time)
- As decommissioning activities have continued, the descriptors for certain gaseous discharge routes are no longer accurate – this will be corrected.

### **NON-ROUTINE MATTERS**

#### **Events / Incidents / Investigations**

- We are reviewing an event that occurred in Feb 2016 whereby the proposed off-site dispatch of IBC’s triggered the gate-post radioactivity monitors. No items left site, but the internal investigation prompted by the “final barrier” alarm highlighted deficiencies in the implementation of company standards for the management of portable containers. We are satisfied with the operators Recovery Quality Plan and we are satisfied that the current temporary “clearance” measures, including additional monitoring of all items and a stop on any IBC’s leaving site under any circumstances address any immediate risks. We should complete our enforcement assessment by end June 2016.

### **ENFORCEMENT ACTIVITY**

We issued a Warning Letter to the site for the breaches of three conditions of EPR\_RSR permit GB3835DE as a result of

“Event 11125”, raised 29 October 2015, relating to the HiRAM waste assay system (Regulation 38 (2) of the Environmental Permitting Regulations: Failure to comply with or contravene an environmental permit condition).

Specifically these permit non-compliances were with: Permit Condition 1.1.1: Failure to have suitable management arrangements in place to ensure the application of best available techniques: particularly in terms of control of contractors, control of systems fundamental to measuring radioactive waste disposals and ensuring use of best available techniques with regards to radioactive waste disposal. Permit Condition 2.3.4: Failure to maintain in good repair the systems and equipment required to ensure compliance with the permit and for the application of best available techniques. Permit Condition 3.2.1: Failure to conduct measurements to determine compliance with the permit and use best available techniques in undertaking such measurements and tests.

## CONTACT DETAILS

Should you have any queries please contact the following:

### *For NRW:*

**Paul Wright**

**Arweinydd Tîm Rheoliad Diwydiant**

**Industry Regulation Team Leader**

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle,  
Sir Y Fflint, CH7 3AJ

Natural Resources Wales, Chester Road,  
Buckley, Flintshire CH7 3AJ

Ffôn / Tel: 03000 653890

E-bost:

[paul.wright@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:paul.wright@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Email:

[paul.wright@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:paul.wright@naturalresourceswales.gov.uk)

### *For EA:*

**Richard Clarke,**

**Nuclear Regulator**

**Nuclear Regulation Group (North),  
Environment Agency,**

Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria,  
CA11 9BP

Ffôn / Tel: 020 3025 5787

Ffôn symudol / Mobile (preffered): 07887 634  
371

Email / E-bost:

[richardj.clarke@environment-agency.gov.uk](mailto:richardj.clarke@environment-agency.gov.uk)

## ANNEX 1

### THE ROLE OF NATURAL RESOURCES WALES AT NUCLEAR SITES

Operating and cleaning up nuclear sites generates radioactive and non-radioactive wastes. Our role as the environmental regulator is to ensure that the impact of those wastes on people and the environment, now and in the future, is as small as it can be. We also aim to prevent pollution, enhance the environment, and contribute to sustainable development.

We inspect nuclear sites and assess proposals from operators in order to provide assurance that the operator is complying with the limits and conditions of the permits we issue under the Environmental Permitting Regulations, 2010 and other relevant legislation and policy.

We supplement direct regulation with a partnership approach, working with the operators, the Nuclear Decommissioning Authority (NDA), the Environment Agency Nuclear Regulation Group and the Office for Nuclear Regulation (ONR) to solve problems jointly.

We expect operators to comply fully with all relevant legislative requirements and permits. If this does not happen, we will not hesitate to use our enforcement powers to ensure that action is taken to protect the environment or to secure compliance.

In summary our objectives are to:

- Ensure that environmental permits are up to date, flexible and fit for purpose and that they drive environmental improvement
- Assess compliance with the limits and conditions of the permits
- Reduce risks to the environment and avoid creating further legacies
- Ensure that integrated waste strategies continue to improve
- Ensure that solid waste is packaged in a form suitable for disposal
- Ensure that infrastructure and assets are maintained to minimise environmental impact

- Develop guidance on Best Available Techniques (BAT)
- Influence NDA so that they provide appropriate direction to operators to minimise waste and improve environmental outcomes
- Encourage integrated management of fuel and nuclear materials so as to prevent or minimise the potential environmental impacts
- Ensure land and groundwater contaminated by radioactivity or other pollutants is managed appropriately and protect land and groundwater from further contamination
- Monitor and assess organisational change to ensure that environmental performance is maintained

In terms of Decommissioning on nuclear sites, Natural Resources Wales and the Environment Agency have produced joint guidance on our requirements, which can be found here:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities>



## **SAFLE DATGOMISIYNU TRAWSFYNYDD, GWYNEDD, CYMRU (MAGNOX CYFYNGEDIG)**

### **GRŴP RHANDDEILIAID SAFLE TRAWSFYNYDD**

### **ADRODDIAD AR GYFER GRŴP RHANDDEILIAID Y SAFLE 6 MEHEFIN 2016**

#### **RHAGAIR**

Cyflwynir yr adroddiad hwn i Grŵp Rhanddeiliaid y Safle er mwyn rhoi crynodeb o weithgareddau rheoleiddiol Cyfoeth Naturiol Cymru ar Safle Datgomisiynu Niwclear Trawsfynydd. Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n atebol am reoleiddio safleoedd niwclear yng Nghymru, ar ran Llywodraeth Cymru.

Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd gytundeb dan gontract sy'n galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i elwa ar adnoddau Grŵp Rheoleiddio Niwclear arbenigol Asiantaeth yr Amgylchedd, er mwyn helpu i ddarparu gwaith arolygu ar y safle, ac asesiadau cysylltiedig o dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010.

O ran rheoleiddio sylweddau ymbelydrol, mae ein prif rôl yn ymwneud â chynhyrchu a gwaredu ar wastraff ymbelydrol. Mae'r drwydded amgylcheddol yn gosod nifer o amodau a chyfyngiadau y mae'n rhaid i'r safle weithredu oddi mewn iddynt. Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth ynghylch ein rôl.



## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod ers cyfarfod diwethaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ym mis Rhagfyr 2015, ac mae'n tynnu sylw at rai gweithgareddau pwysig a meysydd o ddiddordeb.

## Rheoleiddio sylweddau ymbelydrol

Rydym yn rheoleiddio gwastraff ymbelydrol a waredir trwy gyfrwng trwyddedau amgylcheddol, sy'n cynnwys cyfyngiadau ac amodau sydd â'r nod o leihau swmp y gwastraff a gynhyrchir a diogelu'r amgylchedd.

Rydym yn gwirio cydymffurfiaeth â'r trwyddedau drwy gynnal arolygiadau rheolaidd. Caiff y rhain eu cofnodi yn Adroddiadau Asesu Cydymffurfiaeth o ran Sylweddau Ymbelydrol (RASCAR), sy'n manylu ar ein canfyddiadau ac ar unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio; fe'u rhoddir ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Rydym hefyd yn cadw mewn cyswllt cyson â'r gweithredwr mewn cyfarfodydd, dros y ffôn a thrwy e-bost, yn ogystal â thrwy ohebiaeth ffurfiol.

## Gollyngiadau ymbelydrol

Rydym yn derbyn adroddiadau chwarterol gan safle Trawsfynydd ar ei ollyngiadau ymbelydrol misol. Rhoddir y rhain hefyd ar y Gofrestr Gyhoeddus.

Mae holl ollyngiadau ymbelydrol Trawsfynydd yn parhau i fod o fewn y cyfyngiadau a osodwyd yn ein trwydded amgylcheddol ar gyfer sylweddau ymbelydrol.

## Monitro amgylcheddol

Mae'n ofynnol i Magnox Cyf. gynnal gwaith monitro rheolaidd o dan eu trwydded sylweddau ymbelydrol. Mae hyn yn cynnwys cymryd amrywiaeth eang o samplau amgylcheddol o leoliadau yng nghyffiniau'r safle, a'u dadansoddi ar gyfer cynnwys ymbelydrol.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd (ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru) hefyd yn cynnal rhaglen annibynnol o fonitro amgylcheddol. Caiff y canlyniadau eu hadrodd yn eang, ar y cyd â chanlyniadau o raglenni monitro ar safleoedd niwclear eraill yn y DU, yn adroddiad Ymbelydredd mewn Bwyd a'r

Amgylchedd (RIFE). Gellir dod o hyd i adroddiadau RIFE yma:

<http://www.food.gov.uk/wales/about-fsa-wales/cymru/cyngor/rife-report-2013>.

Mae canlyniadau diweddar o'r ddwy raglen ar y cyfan yn cyd-fynd â chyfnodau blaenorol, ac nid oes achos i boeni.

## Cyfarfodydd/Ymweliadau

### Rheoleiddiol Diweddar ac Edrych at y Dyfodol (Niwclear)

Dyddiad	Pwrpas
25 – 26 Ionawr	<ul style="list-style-type: none"><li>Arolygiad Safle Arferol</li></ul>
24 Chwefror	<ul style="list-style-type: none"><li>Gweithdy yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar "Gyflyrau Terfynol", Manceinion</li></ul>
8 – 9 Mawrth	<ul style="list-style-type: none"><li>Arolygiad Safle Arferol</li></ul>
18 – 19 Ebrill	<ul style="list-style-type: none"><li>Arolygiad Safle Arferol</li></ul>
4 Mai	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyd-arolygiad o'r gwaith o weithredu Cam 6-8 y rhaglen Rheoli Newid gan Gyfoeth Naturiol Cymru/y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear/Asiantaeth yr Amgylchedd</li></ul>
17 Mai	<ul style="list-style-type: none"><li>Gwaith yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar "Reolaethau Rheoleiddiol Cymesur": lansiad cynllun cyfathrebu'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, ar gyfer cynnwys rhanddeiliaid yn y gwaith y maent yn ei wneud i gynorthwyo yn y broses o optimeiddio cyflyrau terfynol safleoedd, a'r gwaith rheoli gwastraff cysylltiedig</li></ul>
27 Mai	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyfarfod Tactegol ynglŷn â Chyflwr Terfynol Arfaethedig y Safle gyda Staff Trawsfynydd a Magnox, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, Bootle</li></ul>
6 – 7 Mehefin	<ul style="list-style-type: none"><li>Mynychu Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ac Arolygiad Safle Arferol</li></ul>
22 – 23 Mehefin	<ul style="list-style-type: none"><li>Cyd-adolygiad Blynyddol o Ddiogelwch a'r Amgylchedd cyntaf wedi'i drefnu ar gyfer Trawsfynydd ac Wylfa, i'w gynnal yn Wylfa</li></ul>

5 – 6 Gorffennaf	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arolygiad Safle Arferol wedi'i drefnu</li> </ul>
12 Gorffennaf	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfarfod Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi'i drefnu ynglŷn â: Trawsfynydd ac Wylfa (Cyfoeth Naturiol Cymru, Bwcle)</li> </ul>

## Materion rheoleiddiol cyfredol ac arferion da

- Mae'r safle'n parhau i wneud cynnydd da wrth waredu ar wastraff a gynhyrchir ganddo, yn unol â'r hierarchaeth gwastraff ymbelydrol.
- Yn ystod 2015, gwnaethom nodi bod problem ynghylch diffyg cyfleusterau ar gyfer cael gwared ar rai mathau o wastraff ymbelydrol (llai arferol) oddi ar y safle, a gofyn i'r gweithredwr gadarnhau ehangder y rhain a datblygu rhaglen i ddatrys y broblem. Mae cynnydd wedi'i wneud yn hyn o beth, a byddwn yn parhau i fonitro'r ymateb.
- Yn ystod 2015, gwnaethom gynnal trafodaeth â'r gweithredwr ynglŷn â newidiadau arfaethedig i strwythurau/lefelau staff o fewn holl fflyd Magnox. Gwnaethom fonitro'r broses o weithredu'r newidiadau hyn yn Nhrawsfynydd (gwnaethom drefnu cyfarfod gyda Chyfarwyddwr yr Orsaf a staff corfforaethol Magnox ym mis Awst 2015). Ers hynny, mae'r sefyllfa wedi gwella, ac rydym yn hapus gyda'r cynigion ar gyfer Trawsfynydd. Byddwn yn parhau i adolygu'r gwaith o weithredu'r gwaelodlinau staffio diwygiedig ar gyfer y safle (at ddiben cydymffurfio â'r drwydded).
- Mae Trawsfynydd yn safle "treialu" (ynghyd â Winfrith a Dounreay) ar gyfer gweithredu "Gofynion Cyfarwyddyd ar gyfer Diddymu Trwyddedau" Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae'r gwaith a arweinir gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd/Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn datblygu "rheolaethau rheoleiddiol cymesur" hefyd yn gysylltiedig â hyn. Dylai'r rhaglen dreialu arwain at ddatblygu'r cyflwr terfynol gorau, i ffwrdd o ofynion "dim perygl" cyfredol y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear, h.y. y defnydd o ddull Gofynion Cyfarwyddyd ar gyfer Diddymu

Trwyddedau. Mae'n debyg y bydd hyn yn arwain at newidiadau i ddeddfwriaeth, ac fe fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd, gan gymryd yn ganiataol y bydd yn derbyn cytundeb gan weinidogion ac wedyn cymeradwyaeth seneddol. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn gyfrifol am y risg ynghlwm wrth y gwaith treialu ar y tri safle (nid oes sicrwydd y bydd y gwaith hwn yn arwain at newidiadau i ddeddfwriaeth gynradd [NIA65], ac os yw'n mynd yn ei flaen, fe fydd yn cymryd nifer o flynyddoedd). Er hynny, mae pob un o'r rheoleiddwyr (Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear) wedi ymroddi i weithio gyda'i gilydd gyda Magnox er mwyn cefnogi'r treialon.

- O ganlyniad i'r uchod, rydym yn parhau i roi sylw agos i'r asesiadau sy'n cael eu datblygu yn Nhrawsfynydd er mwyn datblygu "Cynllun Rheoli Gwastraff", ac yn cefnogi "Achos Diogelwch Amgylcheddol ar gyfer y Safle Cyfan", a fydd yn cael ei gyflwyno inni cyn i'r cyfnod Gofal a Chynnal a Chadw (C&M) ddechrau.
- Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaethom nodi ansicrwydd ynglŷn â goblygiadau ar gyfer y safle, o ganlyniad o ostyngiadau arfaethedig i'r cyllid oddi wrth yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear yn sgil adolygiad gwariant y llywodraeth. Nid arweiniodd yr adolygiad at doriadau llym i adnoddau, ond serch hynny byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ynglŷn â chynlluniau gwario, er mwyn sicrhau nad ydynt yn cael effaith andwyol ar y gwaith o gydymffurfio â thrwyddedau ar y safleoedd.
- Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd yr ymdrechion i gyflymu adferiadau malurion elfennau tanwydd (FED), a'r gwaith o gomisiynu safleoedd adfer/crynhoi cysylltiedig, yn ogystal â chynnydd yn y gwaith o ymdrin â llifoedd a chofnodion gwastraff uwch ei actifedd.

## Rheoleiddio sylweddau nad ydynt yn ymbelydrol (Cyfoeth Naturiol Cymru)

- Dim i'w adrodd.



## Diweddariad Trwyddedau – Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol/Rheoliadau Sylweddau Ymbelydrol

Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaethom nodi ein bwriad i ddiweddarau'r drwydded rheoleiddio sylweddau ymbelydrol. Rydym yn gobeithio cwblhau'r gwaith hwn cyn bo hir. I grynhoi, bydd diwygiadau i drwyddedau'n cynnwys:

- Monitro amgylcheddol; ar hyn o bryd, rydym yn pennu rhaglen i'r gweithredwr ymgymryd â hi. Dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, y gweithredwr a ddylai ddiffinio'r rhaglen, a gyflwynir inni ei chymeradwyo.
- Ffurflenni dychwelyd gollyngiadau gwastraff ymbelydrol; caiff y rhain eu cyflwyno inni yn ffurfiol bob mis, ar hyn o bryd. Bydd hi'n ofynnol gennym i gyflwyno bob chwarter. Cytunwyd ar hyn yn ffurfiol gyda'r safle eisoes, o 1 Hydref 2015 (sylwer: bydd y gweithredwr yn parhau i gofnodi data gollyngiadau ac yn sicrhau eu bod ar gael inni eu harchwilio ar unrhyw adeg).
- Wrth i weithgareddau datgomisiynu fynd rhagddynt, nid yw'r disgrifyddion ar gyfer rhai llwybrau ar gyfer gollyngiadau nwyol bellach yn gywir – caiff hyn ei gywiro.

## MATERION AFREOLAIDD Digwyddiadau / Ymchwiliadau

- Rydym yn adolygu digwyddiad ym mis Chwefror 2016, lle gwnaeth y dasg arfaethedig o gael gwared ar gynwysyddion deunyddiau swmp dros dro oddi ar y safle sbarduno teclynnau monitro ymbelydredd ym mhyst y giatiau. Ni adawodd unrhyw eitemau'r safle, ond fe wnaeth yr ymchwiliad mewnol a gychwynnwyd gan larwm y "rhwystir terfynol" ddangos diffygion yn y gwaith o weithredu safonau'r cwmni ar gyfer rheoli cynwysyddion cludadwy. Rydym yn fodlon ar Gynllun Adfer Ansawdd y gweithredwr, ac rydym yn fodlon bod y mesurau "clirio" dros dro cyfredol, gan gynnwys monitro ychwanegol ar gyfer pob eitem, a'r arfer o atal unrhyw gynwysyddion deunyddiau swmp dros dro rhag gadael y safle o dan unrhyw amgylchiadau yn mynd i'r afael ag unrhyw risgiau uniongyrchol. Dylem fod wedi cwblhau ein hasesiad gorfodi erbyn diwedd mis Mehefin 2016.

## GWEITHGARWCH GORFODI

Gwnaethom gyflwyno llythyr o rybudd i'r safle am dri thoriad o amodau Trwydded EPR\_RSR GB3835DE o ganlyniad i "Ddigwyddiad 11125", a nodwyd ar 29 Hydref 2015, ynglŷn â system profi gwastraff HiRAM (Rheoliad 38 (2) o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol: Methu â chydymffurfio ag amod trwydded amgylcheddol neu ei dorri).

Yn benodol, roedd yr achosion hyn o ddiffyg cydymffurfio yn ymwneud ag: Amod Trwydded 1.1.1: Methu â rhoi systemau rheoli addas ar waith er mwyn sicrhau bod y technegau gorau'n cael eu defnyddio: yn enwedig ynglŷn â rheoli contractwyr, rheoli systemau sy'n hanfodol i fesur achosion o gael gwared ar wastraff ymbelydrol, a sicrhau'r defnydd o'r technegau gorau sydd ar gael ar gyfer cael gwared ar wastraff ymbelydrol. Amod Trwydded 2.3.4: Methu â sicrhau bod systemau ac offer ar gyfer sicrhau y cydymffurfir â'r drwydded, ac er mwyn defnyddio'r technegau gorau sydd ar gael, yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Amod Trwydded 3.2.1: Methu â chynnal mesuriadau er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r drwydded a defnyddio'r technegau gorau ar gael wrth gynnal mesuriadau a phroffion o'r fath.

## **MANYLION CYSWLLT**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r swyddogion canlynol:

### ***Ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru:***

**Paul Wright**

**Arweinydd Tîm Rheoleiddio Diwydiant**

**Industry Regulation Team Leader**

Cyfoeth Naturiol Cymru, Ffordd Caer, Bwcle,  
Sir y Fflint, CH7 3AJ  
Natural Resources Wales, Chester Road,  
Buckley, Flintshire CH7 3AJ  
Ffôn / Tel: 03000 653890

E-bost:

[paul.wright@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk](mailto:paul.wright@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk)

Email:

[paul.wright@naturalresourceswales.gov.uk](mailto:paul.wright@naturalresourceswales.gov.uk)

### ***Ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd:***

**Richard Clarke,**

**Rheoleiddiwr Niwclear**

**Grŵp Rheoleiddio Niwclear (Gogledd),  
Asiantaeth yr Amgylchedd,**

Ghyll Mount, Gillan Way, Penrith, Cumbria,  
CA11 9BP

Ffôn / Tel: 020 3025 5787

Ffôn symudol / Mobile (preffered/y dull a ffafirir):  
07887 634 371

Email / E-bost:

[richardj.clarke@environment-agency.gov.uk](mailto:richardj.clarke@environment-agency.gov.uk)

## ATODIAD 1

### RÔL CYFOETH NATURIOL CYMRU MEWN SAFLEOEDD NIWCLEAR

Mae gweithredu a glanhau safleoedd niwclear yn cynhyrchu gwastraff ymbelydrol a gwastraff nad yw'n ymbelydrol. Ein rôl fel rheoleiddiwr amgylcheddol yw sicrhau bod effaith y gwastraff hwn, ar bobl a'r amgylchedd, yn awr ac yn y dyfodol, mor fach ag y gall fod. Rydym hefyd yn ceisio atal llygredd, hyrwyddo'r amgylchedd, a chyfrannu at ddatblygiad cynaliadwy.

Rydym yn archwilio safleoedd niwclear ac yn asesu cynigion gan weithredwyr, er mwyn rhoi sicrwydd bod y gweithredydd yn cydymffurfio ag amodau a chyfyngiadau'r trwyddedau a gyflwynir gennym dan Reoliadau Trwyddedu Amgylcheddol 2010, a deddfwriaeth a pholisïau perthnasol eraill.

I gyd-fynd â rheoleiddio uniongyrchol, rydym yn defnyddio ymagwedd gydweithredol, gan weithio gyda gweithredwyr, yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, Grŵp Rheoleiddio Niwclear Asiantaeth yr Amgylchedd, a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear er mwyn datrys problemau ar y cyd.

Disgwyliwn i weithredwyr gydymffurfio'n llawn â'r holl ofynion deddfwriaethol a thrwyddedau perthnasol. Pe na bai hyn yn digwydd, byddwn yn defnyddio'n pwerau gorfodi yn ddiymdroi i sicrhau bod camau'n cael eu gweithredu i amddiffyn yr amgylchedd neu i gydymffurfio.

I grynhoi, dyma'n hamcanion:

- Sicrhau bod trwyddedau amgylcheddol yn gyfredol, yn hyblyg, yn addas i'r diben, ac yn gyrru gwelliannau amgylcheddol
- Asesu'r gydymffurfiaeth â chyfyngiadau ac amodau'r trwyddedau
- Lleihau risgiau i'r amgylchedd ac osgoi creu problemau etifeddol pellach
- Sicrhau bod strategaethau gwastraff integredig yn parhau i wella
- Sicrhau bod gwastraff solet yn cael ei becynnu mewn ffurf sy'n addas i'w waredu
- Sicrhau bod yr isadeiledd a'r asedau yn cael eu cynnal a'u cadw i leihau effaith amgylcheddol

- Datblygu canllawiau ar y Technegau Gorau sydd ar Gael
- Dylanwadu ar yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear er mwyn iddynt ddarparu arweiniad priodol i weithredwyr er mwyn lleihau gwastraff a gwella canlyniadau amgylcheddol
- Annog trefn o reoli deunyddiau tanwydd a niwclear mewn modd integredig er mwyn atal neu leihau'r posibilrwydd o effaith amgylcheddol
- Sicrhau bod dŵr wyneb a dŵr daear a heintiwyd gan ymbelydredd neu lygryddion eraill yn cael eu rheoli'n briodol, a diogelu dŵr wyneb a dŵr daear rhag cael eu heintio ymhellach
- Monitro ac asesu newid sefydliadol i sicrhau y cynhelir perfformiad amgylcheddol.

O ran datgomisiynu ar safleoedd niwclear, mae Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cynhyrchu canllawiau ar y cyd ynglŷn â'n gofynion ni, y gellir eu gweld yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/the-decommissioning-of-nuclear-facilities>